



Cyfeillion
y Ddaear
Cymru

Friends of
the Earth
Cymru

SICRWYDD A GOBAITH
Barn prif wyddonydd hinsawdd

Ledled
Cymru
mae pobl
yn gwneud
gwahaniaeth

- fel chi



Gwneud gwahaniaeth

Weithiau byddwch yn cwrdd â rhywun y mae eu deallusrwydd, eu hiwmor a'u dynoliaeth yn disgleirio'n danbaid.

Mae Syr John Houghton wedi bod yn un o wyddonwyr hinsawdd mwyaf blaenllaw y byd ers degawdau. Wedi ei fagu yn y Rhyl, mae erbyn hyn wedi ymddeol a gallai fod yn byw bywyd yn hamddenol, yn mwynhau'r olygfa odidog o aber afon Dyfi o'i gartref.

Ond mae Syr John yn wyddonydd o'i gorun i'w sawdl, ac mae'n dal i gael ei gyffroi'n gyson gan ryfeddod ein byd a'n gwybodaeth sy'n tyfu o hyd. A'r angerdd hwn am wirionedd sy'n golygu na all anwybyddu'r cam-wybodaeth a ailadroddir am newid hinsawdd.

Felly, er ei fod ymhell dros ei saithdeg, mae Syr John yn dal i siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac yn ymddangos ar y teledu. Ac mae wedi ein cynorthwyo gyda'n papur briffio, 'Newid Hinsawdd: Ateb y Mythau'. Gallwch weld rhai o'r mythau hyn - a'r ffeithiau sy'n eu hateb - ar dudalen 12.

Ar dudalen 8 mae Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, Gordon James, yn holi Syr John am yr hyn sy'n ei ysbrydoli i barhau. Ac mae'n gofyn iddo, gan mai ef yw un o'r bobl orau yn y byd i ateb, pa mor hyderus ddylem fod ynglŷn â chyflwr presennol gwyddoniaeth hinsawdd.

Ac os yw Syr John Houghton, gyda'i holl wybodaeth a'i brofiad, yn credu bod cymaint y gallwn ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth, ac y gallai ymateb i her newid hinsawdd wneud y byd yn well lle mewn gwirionedd - byddai'n ddoeth i ni wrando arno.

Felly, cyflwynir y rhifyn hwn o Gweithredu Gwyrdd i'r bobl hynny ledled Cymru sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth. Ac mae hynny mwy na thebyg yn eich cynnwys chi. Ar y clawr ceir rhai o'r rheiny sy'n rhoi gymaint o'u hamser, yn cefnogi syniadau gwyrdd da ac yn lobio yn erbyn y syniadau gwael. Ar dudalennau pedwar a phump ceir storïau gan y bobl ysbrydoledig hyn. Ac os ydych chi'n un ohonynt, neu'n debyg i un ohonynt - diolch yn fawr i chi oddi wrthym ni i gyd.

Neu efallai eich bod yn darllen hwn oherwydd eich bod yn ein helpu ni'n ariannol. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr hefyd, felly diolch am eich cefnogaeth. Ar dudalen tri nodir rhai o'r ffyrdd galwch helpu hyd yn oed mwy, ac yn y cyfnod hwn rydym angen pob cymorth y gallwch ei roi.

Rhaid cyfaddef bod ein gwleidyddion yng Nghymru wedi bod yn eithaf prysur yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i roi cynaliadwyedd wrth wraidd ei pholisïau, ac yn ceisio cymryd rôl flaenllaw mewn mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Yn ddiweddar bu llawer o newid yng ngwleidyddiaeth Cymru a'r DU, a chydag etholiad y Cynulliad blwyddyn nesaf mae'n bosib bod llawer mwy o newid i ddod. Ond a yw'r newidiadau hyn yn mynd i'r cyfeiriad cywir? Ar dudalen 10 mae Ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear, Haf Elgar, yn edrych ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yng Nghaerdydd a San Steffan. Ac mae'n asesu rhai o'r penderfyniadau da a wnaed ym Mae Caerdydd sydd wedi deillio o ymgyrchoedd Cyfeillion y Ddaear Cymru.

Ond bydd llawer o dargedau a pholisïau ein llywodraethau cenedlaethol yn golygu dim oni bai y gweithredir arnynt yn lleol. Ewch i dudalen 11 i ddarllen am ein hymgyrch i annog awdurdodau lleol i ymrwymo i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Efallai bod hon yn ymgyrch y gallwch chi ymuno ynddi hefyd. Naill ai drwy ymuno ag un o grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru sy'n brysur gyda'r ymgyrch, neu drwy wneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed gan eich gwleidyddion lleol.

Os nad ydych chi eisioes yn ymwneud â Chyfeillion y Ddaear, mae hwn yn amser gwych i wneud gwahaniaeth.

**Simon Williams
Golygydd**



RHIFYN 3 2010

Cyhoeddir **Gweithredu Gwyrdd** gan **Cyfeillion y Ddaear Cymru**
33 Oriel Arcêd y Castell
Caerdydd CF10 1BY
ffôn: 029 2022 9577
ffacs: 029 2022 8775
e-bost: cymru@foe.co.uk
gwefan: www.cyddcymru.co.uk

Golygydd a chynllunyydd:
Simon Williams

Cyfranwyr:
**Neil Crumpton, Haf Elgar,
Gordon James, Bleddyn Lake**

Rhif Cwmni Cyfeillion y Ddaear
Cyfyngedig 1012357

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
- yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwado y DG
- yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 77 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir
- yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru
- yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm

Argraffwyd ar bapur a wnaed 100 y cant o wastraff ôl-ddefnyddiwr, gan ddefnyddio inciau llysiâu ac yn gwbl rydd o alcohol, gan argraffwr a chanddo achrediad amgylcheddol rhyngwladol ISO 14001

Cefnogwch ni...

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn rhan o Gyfeillion y Ddaear Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae llawer o ffyrdd hawdd i chi gyfranu - o godi arian wrth chwilio'r rhyngwyd i gymryd rhan mewn digwyddiad codi arian

Os nad ydych eisoes yn gefnogwr Cyfeillion y Ddaear beth am ymuno a ni heddiw? Bydd eich cyfraniad yn ein helpu i ddod o hyd i atebion i ddiogelu'r blaned a'i phobl yn awr ac i'r dyfodol. Ewch i www.foe.co.uk/cymru neu ffoniwch **0800 581 0510**. Byddem yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth

Os ydych yn poeni am y byd y byd cenedlaethau'r dyfodol yn ei etifeddu, gadael rhodd yn eich Ewyllys i Gyfeillion y Ddaear yw un o'r pethau gorau gallwch ei wneud. Cewch wybod rhagor am hyn yn www.foe.co.uk/legacies neu ffoniwch Candice ar **020 7566 1646**

Newidiwch eich trydan i ffynhonnell 100% adnewyddol 'Good Energy' a derbyniwn ni gyfraniad o £50. Ewch i www.good-energy.co.uk/foe neu ffonio **0845 456 1640**, gan son am Gyfeillion y Ddaear

Mwynhewch a helpwch - trefnwch ddigwyddiad codi arian i Gyfeillion y Ddaear Cymru. Ffoniwch **029 2022 9577** am wybodaeth

Codwch arian ychwanegol ar ein cyfer drwy ddefnyddio peiriant chwilio'r rhyngwyd Everyclick. Cofrestrwch yn www.everyclick.com/friendsoftheearthtrust

cynnwys

4 Gweithredu'n lleol

Newyddion o grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear o bob rhan o Gymru

6 Cyfiawnder i Ferthyr

Cyfreithwyr Cyfeillion y Ddaear yn ceisio cyfiawnder amgylcheddol i un o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru

6 Ffermydd mynydd

Sut y gall ffermwyr ucheldir Cymru ein helpu i daclo newid hinsawdd

6 Ynni yng Nghymru

Beth ydyn ni eisiau? Ynni! Sut ynni ydyn ni eisiau? Gwyrdd! Pryd ydyn ni ei eisiau? Nawr!

7 Teithio yn y Dyfodol

A fydd y dyfodol yn drydanol?

8 Cymwys i ddweud

Gwyddonydd hinsawdd byd-enwog o Gymru yn sgwrsio am gadernid gwyddonol, gobaith a gwadu

10 Yn y Cynulliad

Bu'n flwyddyn brysur yn y byd gwleidyddol. Ac mae llawer mwy i ddod

11 Cynghorau gwyrdd


Annog ein cynghorau i fod O Ddifri Ynglych CO₂

12 Mythau hinsawdd


Rhai mythau cyffredin am wyddoniaeth hinsawdd, a'r ffeithiau i helpu i'w hateb

'Nid oes unrhyw gonsensws ar newid hinsawdd' 'Mae'r byd yn oeri nid yn twymo' 'Mae newid hinsawdd yn broses naturiol'

12. Mythau hinsawdd



11. Cynghorau gwyrdd



8. Cymwys i ddweud



Ym mhob rhan o Gymru mae pobl yn gwneud eu byd yn lle gwyrddach. Lle bynnag yr ydych yn byw, gallwch gyfranogi mewn grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear



Kat Nicholson

Cyfeillion y Ddaear Pontypridd

"Mae bod yn rhan o grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear yn wych ar gyfer cymryd rhan mewn gweithredu ar lefel leol, ac ar yr un pryd gyfrannu at ymgyrchoedd llawer mwy hefyd.

"Mae hefyd wedi bod yn ardderchog i gyfarfod pobl sydd â blaenoriaethau tebyg ac sy'n poeni am yr un pethau â mi."



**Raoul Bhambral
Caerdydd**

"Mae gennym griw da o bobl yn gwneud pethau da iawn. Yn ddiweddar cynhaliom gyfarfod cyhoeddus

etholiadol, a hyrwyddo bwyd lleol gyda sesiwn ffilm a 'brwydr bwyd'. Cawsom hwyl, a hefyd gadael i bobl Caerdydd wybod mwy am fwyd cynaliadwy."



Rick Mills

Môn a Gwynedd

"Yn ystod fy 10 mlynedd fel aelod o grŵp Môn a Gwynedd, rydw i wedi dod i sylweddoli'r

pwysau y mae llawer o wleidyddion yn ei roi ar farn rhywun fel cynrychiolydd Cyfeillion y Ddaear. Mae'n agor drysau a fyddai fel arall yn aros ynghau."



**AnneMarie Foley
Caerfyrddin**

"Drwy fod yn aelod o fy ngrŵp lleol rwy'n teimlo mod i'n gwneud rhywbeth cadarnhaol i helpu

taclio newid hinsawdd. Rwy'n teimlo'n llai o anobaith, a'n sylweddoli y gall ymgyrchu, cynnal digwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth helpu"



**Carole Jacob
Torfaen**

"Ers ymuno â'm grŵp lleol, rwy'n teimlo bod fy llais nawr yn cael ei glywed, a gallaf wneud gwahaniaeth

ar faterion yr wyf yn poeni amdanynt. Rwyf wrth fy modd yn ymgyrchu a gallaf gymryd cymaint neu cyn lleied o ran ag yr wyf eisiau."

Bleddyn Lake

Swyddog Datblygu Grwpiau Lleol



Mae fy ngwaith yn mynd â fi dros Gymru gyfan, yn cynorthwyo rhwydwaith cynyddol o grwpiau lleol. Mae ystod y gwaith y mae'r grwpiau yn ei wneud yn fy rhyfeddu ac yn fy ysbrydoli yn gyson.

Os ydych yn ystyried cychwyn grŵp newydd, cysylltwch â mi ac fe'ch cynorthwyaf i drefnu cyfarfod gyda phentwr o gyhoeddusrwydd. Yr oll sydd ei angen arnoch yw digonedd o frwdfrydedd a'r ysfia i droi'ch byd yn lle ychydig gwyrddach.



Sut i gymryd rhan

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau'n cwrdd unwaith y mis ac yn gweithio ar amryw o ymgyrchoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang - cewch hyd i'r cyswllt perthnasol ar gyfer eich grŵp lleol ar y map gyferbyn. Os hoffech gychwyn grŵp newydd, cysylltwch â Bleddyn ar 02920 229 577, neu ar bleddyn.lake@foe.co.uk

Glo, hinsawdd, cynghorau, Copenhagen a bagiau plastig

Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru wedi bod yn brysur yn gwneud gwahaniaeth, gan feddwl yn fyd-eang a gweithredu'n lleol.

Gweithiodd grwpiau yn galed yn y cyfnod cyn trafodaethau newid hinsawdd Copenhagen. Teithiodd rhai hyd yn oed i Ddenmarc i ymuno â grwpiau Cyfeillion y Ddaear o gwmpas y byd.

Mae aelodau grwpiau lleol yn cefnogi ynni adnewyddol ledled Cymru, ac yn gwrthwynebu safleoedd glo brig a llosgyddion gwastraff mawr yng Nghasnewydd, Caerdydd a Merthyr Tudful. Fe wnaeth grŵp Casnewydd hefyd wrthwynebu'n llwyddiannus orsaf

bŵer biodanwydd, a fyddai'n llosgi olew palmwydd a fewnforir o Asia. Mae planhigfeydd olew palmwydd anferthol yn cyfrannu at ddadfforestiad sy'n newid hinsawdd, dadleoli cymunedau lleol a dinistrio cynefinoedd.

Mae grwpiau ym Môn a Gwynedd, Llangollen, Abertawe, Caerffili, Torfaen a Chaerdydd wedi bod yn brysur gyda'r ymgyrch 'O Ddifri Ynghylch CO₂', yn gofyn i gynghorau dorri allyriadau yn lleol.

Cynorthwyodd grŵp Trefynwy i drefnu diwrnod Teithio Gwyrdd llwyddiannus arall, ac yn arwain at Awr Ddaear, cynhaliodd grŵp Caerfyrddin ddiwrnod o weithdai, siaradwyr, ffilmiau a bwyd.


Mae rhai grwpiau yn parhau i ymgyrchu i leihau'r defnydd ar fagiau plastig. Mae'r ymgyrchoedd hyn eisoes wedi cynorthwyo i berswadio Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi tâl gorfodol ar gyfer bagiau plastig, o wanwyn 2011.

Roedd y cyfnod yn arwain at yr Etholiad Cyffredinol yn gyfnod prysur dros ben, gyda grwpiau yn lobio ymgeiswyr seneddol i gytuno i ymrwymadau gwyrdd a chynnal hystingau gwyrdd.

Mae'r gwaith lleol, cenedlaethol a rhyngwladol hwn yn dangos y gallwn sicrhau newid ar bob lefel drwy weithio gyda'n gilydd - mae yna ffordd i bob un ohonom wneud gwahaniaeth.

Grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru

- | | | |
|--|--|--|
| <p>1 Abertawe
Roy Jones 01792 813 600
Roy@gellideg.demon.co.uk
www.swanseafae.org.uk</p> <p>2 Aberystwyth
John Crocker 01974 272218
aberystwythfoe@yahoo.co.uk
www.foe.co.uk/aberystwyth</p> <p>3 Caerdydd
Raoul Bhambral 0750 492 8248
info@foecardiff.co.uk
www.foecardiff.co.uk</p> <p>4 Caerffili
Bleddyn Lake 029 2022 9577
bleddyn.lake@foe.co.uk
www.foe.co.uk/caerphilly</p> <p>5 Caerfyrddin
Steve Hack
steve@carmarthenfoe.org
Chris Corcoran 01267 223023
www.foe.co.uk/carmarthen</p> <p>6 Calon Cymru
Janine Wilbraham 01597 870039
janinewilbraham@googlemail.com
www.foe.co.uk/heartofwales</p> <p>7 Cas-gwent
Clive Shakesheff
rcshakesheff@googlemail.com
www.chepstowfoe.org.uk</p> <p>8 Casnewydd
David Yates
dave.yates@phonecoop.coop
www.foe.co.uk/newport</p> | <p>9 Llangollen
Sam Rex 01978 862 913
extinct_rex@hotmail.com
www.foe.co.uk/llangollen</p> <p>10 Llanidloes
Frances Browne
01686 412 788
www.foe.co.uk/llanidloes</p> <p>11 Merthyr Tydfil
Alyson Austin
postmaster@caustin7.plus.com
www.foe.co.uk/groups/merthyrtidfil/</p> <p>12 Môn a Gwynedd
David Stephenson 01248 810236
rick.mills@btinternet.com
www.foe.co.uk/monagwynedd</p> <p>13 Pontypridd a'r cylch
Kat Nicholson
pontypriddfoe@googlemail.com
www.foe.co.uk/pontypridd</p> <p>14 Sir Benfro
Ellie Clegg
07800 789 930
silhouette@cooptel.net
www.foepembrokeshire.co.uk</p> <p>15 Sir y Fflint
Rob Owen 01352 710 714
glynowen@holywellcomputers.co.uk
www.foe.co.uk/flintshire</p> <p>16 Torfaen
Carole Jacob 01633 875627
carole.jacob48flc@ntlworld.com
www.torfaenfoe.org.uk</p> | <p>17 Trefynwy
Haydn Cullen-Jones
monmouthfoe.coord@hotmail.co.uk</p> <p>18 Y Barri
Keith Stockdale 01446 734368
greenkeith@virginmedia.com
www.foe.co.uk/barry</p> <p>19 Y Fenni a Chrucywel
Jackie Bradshaw
abandcrickfoe@yahoo.co.uk
www.foe.co.uk/abergavenny</p> |
|--|--|--|



Diana Marquand a Llinos Roberts o Gyfeillion y Ddaear Caerfyrddin yn dweud wrth siopwyr yng Nghaerfyrddin sut y gallant helpu i Gywiro'r Gadwyn Fwyd

Cywiro'r gadwyn fwyd

Mae ffermio ffatri yn galw am symiau enfawr o soia, fel cynhwysydd allweddol mewn bwydydd anifeiliaid. Mae'r rhan fwyaf o'r soia hwn yn dod o blanhigfeydd yn America Ladin, a grëir drwy glirio darnau enfawr o dir. Mae'r dadfforestiad hwn yn golygu allyriadau nwyon tŷ gwydr sylweddol a cholli cynefin bywyd gwyllt gwerthfawr.

Nod ymgyrch 'Cywiro'r Gadwyn Fwyd' Cyfeillion y Ddaear yw cynorthwyo ffermwyr y DU i dorri'r cysylltiad hwn rhwng cynhyrchu cig a llaeth a dadfforestiad. Mae grwpiau lleol ledled Cymru wedi bod yn brysur yn hyrwyddo'r ymgyrch, yn cynnal

digwyddiadau, cyfarfodydd cyhoeddus, dangos ffilmiau ac yn lobbio eu AS i gefnogi deddf newydd i hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy.

Cynhaliodd Cyfeillion y Ddaear Calon Cymru gyfarfod cyhoeddus gydag arbenigwr ffermio soia o Frasil, a amlygodd cam-drin hawliau dynol sy'n gysylltiedig â ffermio soia, gyda ffermwyr bychan yn cael eu gwthio o'u tir gan gwmnïau rhyngwladol.

Mae'r ymgyrch hefyd yn ceisio hyrwyddo cynhyrchion lleol o ansawdd da ac yn mynnu bod archfarchnadoedd yn cynnig pris teg i ffermwyr am eu cynnyrch.

Cyfiawnder amgylcheddol i Ferthyr Tudful

Rhai o arwyr tawel Cyfeillion y Ddaear yw cyfreithwyr a chynllunwyr y ganolfan Hawliau a Chyfiawnder. Mae'r tîm bychan hwn wedi trechu cwmnïau mawr mewn dyfarniadau Uchel Lys ac wedi gorfodi i benderfyniadau polisi'r llywodraeth gael eu gwrthdroi. Maent yn gweithio'n ddiflino dros gyfiawnder amgylcheddol ac yn grymuso pobl, yn arbennig mewn rhai cymunedau dan anfantais sydd weithiau'n gallu cael eu llethu gan broblemau amgylcheddol.

Cymuned o'r fath yw Merthyr Tudful. Mae'r dref hon yn Ne Cymru, man geni'r chwyldro diwydiannol, wedi dioddef llygredd aer, diweithdra uchel ac amodau iechyd gwael. Y felltith ddiwedda ar y dref yw'r safle glo brig enfawr sydd wedi ei leoli ar garreg drws pobl yn Ffos-y-Fran, gyda thrigolion lleol yn dioddef sŵn a llwch bob awr o'r dydd.

A nawr, gall cais cynllunio gan y cwmni Americanaidd Covanta olygu llosgydd sbwriel anferth a fydd yn peri mwy o felltith fyth ar yr ardal ac ar fywydau'r trigolion. Os caiff y cais ei ganiatáu bydd loriau a threnau yn taranu i Ferthyr, yn llawn sbwriel o bob rhan o Gymru a thu hwnt, bob dydd er mwyn bwydo'r llosgydd. Yna bydd angen rhagor o loriau i gludo'r lludw i safleoedd gwastraff peryglus.

Nid yw llosgyddion yn wyrdd. Maent yn cynhyrchu lludw gwenwynig, yn allyrru symiau eithafol o garbon deuocsid, ac yn wrthgymhelliad i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.

Ond ni fydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y cyngor, y Cynulliad Cenedlaethol na hyd yn oed Aelodau Seneddol. Gan fod llosgi sbwriel yn cynhyrchu ynni, caiff ei ystyried

fel gorsaf bŵer. O dan y system bresennol, gwneir y penderfyniad gan gorff cynllunio annemocrataidd, y 'Comisiwn Cynllunio Isadeiledd' (IPC). Mae hyn yn golygu na cheir ymchwiliad cyhoeddus na hawl gan y gymuned leol i gyflwyno tystiolaeth arbenigol na chroesholi'r cwmni.

Er gwaethaf ymrwymiad gan Lywodraeth Clymblaid y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, mae'n ymddangos y bydd y rhan fwyaf o'r system yn parhau fel y mae, ond gyda'r Ysgrifennydd Gwladol nawr yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Yn ogystal â pheidio gorfod rhoi ystyriaeth i ddymuniadau trigolion lleol, gall y broses gynllunio hon hefyd danseilio polisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y strategaethau ar ynni a gwastraff, ymrwymadau i dorri carbon a pholisiâu cynllunio.

Mae Cyfeillion y Ddaear yn herio'r broses hon, a diffyg hawl pobl i fod yn rhan o benderfyniadau cynllunio ac atebolrwydd democrataidd iddynt. Mae ein tîm Hawliau a Chyfiawnder yn gweithio gyda thrigolion Merthyr i roi cefnogaeth gyfreithiol, ac i geisio sicrhau bod pryderon y gymuned - a newid hinsawdd - yn cael eu hystyried yn y broses. Bydd ein hymgyrchwyr gwastraff yn darparu arbenigedd er mwyn llunio achos cryf yn erbyn y llosgydd.

Mae grŵp Cyfeillion y Ddaear lleol Merthyr hefyd yn gweithio'n agos gyda thrigolion a gwleidyddion i wrthwynebu'r llosgydd enfawr hwn, ac i atal dinistr amgylcheddol a difethiad pellach eu cymuned ●



Melanie Girouard

Cefnogi ffermio mynydd

Mae angen system teg i ffermwyr er mwyn torri ein dibyniaeth ar soia a fewnforir i fwydo anifeiliaid, gan achosi dadfforestiad, a symud at ffyrdd mwy cynaliadwy o ffermio.

Mae gan Gymru enghreifftiau gwych o ffermio cynaliadwy sy'n cynhyrchu bwyd o ansawdd da ar gyfer y farchnad lleol, gyda ffermydd teuluol, sector organig ar gynydd a llawer o dda byw wedi eu bwydo ar laswellt. Ond mae'n gyfnod anodd i lawer o ffermwyr. Mae gan 80 y cant o Gymru statws 'Ardal Llai Ffafirol', sy'n cydnabod ei bod yn anodd a chostus i'w ffermio. Rhaid i'r ffermydd hyn gystadlu gyda ffermydd ffatri dwys ledled Ewrop, sy'n cynnig ansawdd is a dim budd cymdeithasol ond sy'n parhau i elwa o gymorthdaliadau annheg.

Mae gan ffermio mynydd rôl allweddol mewn cynhyrchu da byw cynaliadwy, yn arbennig defaid. Mae'n helpu sicrwydd bwyd ac yn darparu bwyd lleol sydd ddim yn ddibynol ar soia wedi ei fewnforio. Mae pori yn cynorthwyo cynnal bioamrywiaeth, gall gloi carbon yn y pridd ac mae'n hollbwysig ar gyfer economi a swyddi yng Nghymru.

Bydd ymgyrch 'Cywiro'r Gadwyn Fwyd' Cyfeillion y Ddaear yn parhau i frwydro dros ddyfodol iach ar gyfer ffermydd yng Nghymru.

Y N N I

Mae gwneud ein cyflenwad ynni yn wyrdd yn bwysig dros ben os ydym am leihau allyriadau carbon sy'n newid hinsawdd. Ond ni chaiff pob ynni 'carbon isel' ei greu'n gyfartal. Dyma'r raddfa sy'n llithro o 'Os gwelwch yn dda' wrth bŵer gwynt sydd wedi ei leoli'n briodol, drwy agweddau mwy cymhleth 'Mae'n dibynnu', i 'Dim diolch' mawr wrth niwclear...

Os gwelwch yn dda

Gwynt Mae ynni gwynt yn ffactor gref yn strategaeth ynni 'Chwyldro Carbon Isel' Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r targedau ar gyfer pŵer gwynt ar y tir ac ar y môr yn cynhyrchu'r un faint o drydan ag a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru. Codir ffermydd gwynt mawr ym Môr Hafren a Bae Lerpwl, gan roi cyfleoedd economaidd cyffrous i Gymru. Mae ymchwil diweddar yn rhagamcanu y gallai pŵer gwynt, ar y môr yn bennaf, gynhyrchu mwy o drydan na'r galw am ynni yn y DU yn y dyfodol.

Adnoddau Adnewyddol Morol Mae gan Gymru botensial aruthrol o ran ynni morol. Gyda phorthladdoedd mawr a diwydiant rydym mewn sefyllfa dda i fanteisio. Mae astudiaeth Llanw Aber Hafren yn ei hail flwyddyn, a rhagor o dystiolaeth yn dangos effeithiau niweidiol morgloddiau mawr megis un arfaethedig Caerdydd-Weston. Mae dyfais lanwol wedi ei chynnig yn Swnt Ynys Dewi oddi ar Sir Benfro, a datblygir prosiect 'Draig y Don' gerllaw. Mae ystod o dyrbinau llanw yn cael eu cynnig ar gyfer oddi ar Ynys Môn.

Trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol

Faint all gwneud y system drafnidiaeth yn wyrddach ei gyfrannu at doriadau mewn allyriadau - ac a fydd yr economi yn talu'r pris?

Allyrrwyd ychydig dros 6 miliwn tunnell fetrig o garbon deuocsid gan drafnidiaeth ffordd yng Nghymru yn ystod 2007, 16 y cant o gyfanswm allyriadau Cymru. Os ydym i gyrraedd yn agos at dargedau Cynulliad Cymru o dorri allyriadau gan 40 y cant erbyn 2020, rhaid i ni fynd i'r afael â sut yr ydym yn teithio o gwmpas.

Gwnaed cynnydd yn ddiweddar gyda chanslo cynlluniau i adeiladu traffordd Lefelau Gwent a ffordd ddeuol ar hyd yr A40 drwy Sir Benfro, dau gynllun a fyddai wedi achosi cynnydd mewn traffig. Bu'r rhain yn fuddugoliaethau nodedig i Gyfeillion y Ddaear Cymru a'i gynghreiriaid.

Ond rydym ni'n dal i deithio mwy o gilomedrau ar ffyrdd bob blwyddyn. Bydd gwneud newidiadau angenrheidiol yn heriol a gwerth chweil.

Lleihau'r angen

Mae lleihau'r angen i deithio yn chwarae rôl bwysig i gael ceir oddi ar y ffyrdd. Rhaid i gynllunio defnydd tir gwell ddod â'r manau yr ydym yn byw, gweithio, a siopa ynddynt yn agosach at ei gilydd, a sicrhau bod gwell trafndiaeth gyhoeddus i bawb.

Mae angen i wasanaethau gwledig, megis swyddfeydd post, ysgolion a siopau oroesi. Mae teleweithio a fideo gynadledda yn parhau'n ffyrdd o weithio na ddefnyddir yn ddigonol. Byddai prynu mwy o gynnyrch lleol yn lleihau allyriadau, ac o fudd i'r economi leol. Gallai trosglwyddo cludiant

nwyddau i'r rheilffyrdd a'r môr olygu gostyngiad sylweddol mewn allyriadau.

Trafnidiaeth gyhoeddus

Pan fydd yn rhaid i ni deithio gallwn helpu drwy gyfnewid siwrneiau ceir ar gyfer y rheilffyrdd, bws, beic neu gerdded. Rhaid i wariant llywodraeth ffafrio teithio cynaliadwy dros adeiladu ffyrdd. Mae angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn aml ac yn fforddiadwy er mwyn perswadio pobl i adael eu ceir adref.

Mae gwelliannau mawr mewn trafndiaeth gyhoeddus a mesurau lleihau traffig eraill yn hollbwysig er mwyn gwella'r amgylchedd, economïau lleol ac iechyd. Ond nid ydynt yn ddigon i sicrhau'r toriadau mawr sydd eu hangen mewn allyriadau. Gall mewnforio biodanwyddau i gyflawni pump y cant o'r gymysgedd tanwydd erbyn 2020 leihau allyriadau Cymru, ond ar draul cynyddu'r allyriadau yn y gwledydd sy'n cynhyrchu'r cnydau.

Technoleg well

I gael toriadau llawer mwy, rhaid i ni hefyd weld newidiadau mawr mewn technoleg. Dangosodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn deall hyn pan gyhoeddodd, ym mis Chwefror 2010, ei rhaglen 'Prifordd Hydrogen' i sefydlu manau llenwi â hydrogen a gwefru trydan mewn lleoliadau strategol ar hyd yr M4 yn Ne Cymru.

Gall gwell effeithlonrwydd tanwydd peiriannau confensiynol a'r car rhannol



Car trydanol Zecar gan gwmni Stevens ym Mhort Talbot – dyfodol ceir a hwb i economi Cymru?

drydanol dorri allyriadau gan 20-30 y cant. Ond mae ceir cwbl drydanol yn defnyddio dim ond tua 20 o ynni peiriannau petrol a disel heddiw.

Wrth i brisiau petrol a disel barhau i godi, bydd cerbydau tanwydd-effeithlon yn dod hyd yn oed yn fwy deniadol. Mae'r angen i dorri allyriadau yn golygu codiadau parhaus mewn trethi tanwydd, a dylid buddsoddi'r arian i dorri costau trafndiaeth gyhoeddus a gwella cyfleusterau beicio a cherdded.

Llesol i'r economi

Bydd economi Cymru yn elwa o bolisiau lleihau traffig a thagfeydd. Mae cwmnïau o Gymru, megis Stevens Vehicles ym Mhort Talbot a Connaught Engineering yn Llanelli, eisoes yn cynhyrchu cerbydau trydan a thechnoleg trydan. Heb amheuaeth mae cyfleoedd enfawr ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru mewn datblygu a chynhyrchu cerbydau trydan a'r ffynonellau ynni adnewyddadwy y byddwn eu hangen i'w pweru ●

Mae'n dibynnu

Biomass Mae Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd yn ymgyrchu yn erbyn gorsaf bŵer biomass enfawr ar Ynys Môn. Mae'r pryderon yn cynnwys mewnforio 2.5 tunnell fetrig y flwyddyn o fforest o Ganada a gymerai degawdau i ail-dyfu, yn ogystal ag effeithlonrwydd isel y cynllun. Gan ddefnyddio gwastraff gwres a phŵer cyfun (CHP), gallai gwres gael ei anfon drwy bibellau i gartrefi a busnesau lleol gan wneud y cynllun ddwywaith yn fwy effeithlon. Mae cynllun tebyg, eto heb CHP, wedi ei gymeradwyo ym Mhort Talbot.

Dim diolch

Niwclear Er gwaethaf ymrwymiad parhaus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru ddi-niwclear, mae Horizon Nuclear Power yn gwneud cais i adeiladu gorsaf bŵer fawr 'Wylfa B' ar Ynys Môn. Gallai'r adweithyddion newydd weithredu am drigain o flynyddoedd. Mae dau gynllun adweithyddion 'trydedd genhedlaeth' wrthi'n cael eu hasesu. Byddai'r gwastraff ddwywaith mor ymbelydrol â'r gwastraff presennol, ac yn parhau ar y safle am hyd at 160 o flynyddoedd mewn storfeydd 'dros dro'.

Olew brig

Ym mis Ebrill 2010 rhybuddiodd lluoedd arfog yr UDA y gallai'r gallu olew yn dilyn y dirwasgiad ddiflannu o fewn dwy flynedd. Gallai olew crai gyrraedd \$100 y faril yn fuan, ac erbyn 2015 gallai prinder difrifol olygu canlyniadau economaidd a gwleidyddol negyddol.

Mae Llywodraeth y DU wedi agor ardal o fôr mwy nac erioed lle gall archwiliadau olew a nwy ddigwydd. Mae Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion a'r ardaloedd cyfagos wedi eu heithrio ar hyn o bryd, tra disgwylir am ymchwiliadau pellach.

Cymwys i ddweud

Y gwyddonydd newid hinsawdd byd-enwog **Syr John Houghton** sydd yn sgwrsio gyda chyfarwyddwr Cyfeilion y Ddaear Cymru **Gordon James** ynglŷn â chadernid gwyddonol, gobaith a gwadiad

Gordon James: Rydych wedi cael gyrfu nodedig fel gwyddonydd ar y lefel uchaf. Pam ydych chi'n parhau i ymhél â'r drafodaeth ynglŷn â newid hinsawdd, hyd yn oed wedi ymdeol?

Syr John Houghton: Gwyddonydd ydw i, ac mae hinsawdd yn faes gwybodaeth ddynol diddorol dros ben. Rydw i wedi bod yn ffodus iawn yn y swyddi y bŵm ynddynt ac wedi cael y fraind o fod yn rhan o'r ffrwydriaid anhygoel yn ein dealltwriaeth o'r system hinsawdd. Gydag arsylwadau byd-eang, a grym cyfrifiadurol anferth sy'n ein galluogi ni i fodelu'n fyd-eang, rydym wedi gallu rhoi'r holl beth at ei gilydd mewn ffordd gyffrous.

Ni allaf ei adael, mae'n rhan o fy mywyd nawr. Rwy'n cydnabod newid hinsawdd fel problem fyd-eang, a'r hyn sydd ei angen yw bod gwybodaeth dda iawn ar gael. Mae gen i'r wybodaeth, rydw i wedi cael profiad nad oes llawer wedi ei gael, ac felly teimlaf bod cyfrifoldeb arnaf i helpu.

GJ: Buoch yn gadeirydd Gweithgor Asesiad Gwyddonol y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) am nifer o flynyddoedd. Yr IPCC yw corff mwyaf blaenllaw'r byd ar newid hinsawdd, ond yn y misoedd diwethaf bu cryn feirniadaeth ohono. Pa mor gadarn yw adroddiadau'r IPCC mewn gwirionedd, a pha mor fanwl yw'r broses o'u crynhoi?

SJH: Do, bu un camgymeriad, cyfeiriad nad aseswyd yn iawn. Ond dyna un camgymeriad mewn mil o dudalennau. Mae llawer o bobl sy'n benderfynol o fwrw anfri ar yr IPCC.

Nid yw hyn yn beth newydd. Yn ôl yn y 1990au roedd ymgyrch camwybodaeth fawr yn cael ei harwain gan ExxonMobil a chwmnïau glo America. Felly, mae hyn wedi bod yn digwydd ers cryn amser, ac mae llawer o bobl yn ymwneud yn hyn o hyd. Fel y gellid darogan, cyn trafodaethau hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn Copenhagen roeddent yn gweithio'n galed dros ben.

Ond gwnaeth yr IPCC waith gwyddonol, trylwyr iawn. Roedd cael pawb i gydgrynhoi eu gwybodaeth, i gydbwysu'r holl ddata ac i edrych ar y darlun cyfan, i edrych ar y byd yn gyfan ac nid dim ond ar ran ohono, yn ffordd bwerus iawn o ganfod beth oedd yr holl ddata yn ei olygu.

Yr IPCC

Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd yw corff mwyaf blaenllaw'r byd ar gyfer asesu newid hinsawdd. Fe'i sefydlwyd gan y Cenhedloedd Unedig a Sefydliad Meterolegol y Byd (WMO) ym 1989, er mwyn rhoi golwg glir ar newid hinsawdd a'i ganlyniadau posibl.

Mae'r IPCC yn adolygu ac yn asesu'r wybodaeth wyddonol, dechnolegol ac economaidd-gymdeithasol ddiweddaraf a gynhrychir ledled y byd. Mae miloedd o wyddonwyr o bob rhan o'r byd yn cyfrannu, ac mae'r adroddiadau'n adlewyrchu gwahanol safbwyntiau o fewn y gymuned wyddonol.

Yn gorff rhynglywodraethol, mae'r IPCC yn agored i'r holl wledydd sy'n aelodau o'r Cenhedloedd Unedig a'r WMO. Oherwydd ei natur wyddonol a rhynglywodraethol unigryw, mae'r IPCC yn darparu gwybodaeth fanwl iawn a chytbwys i wneuthurwyr penderfyniadau.

Syr John Houghton: Bywyd mewn gwyddoniaeth

- 2007** Derbyn Gwobr Heddwch Nobel, fel cyd-gadeirydd Gweithgor Asesiad Gwyddonol y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC)
- 1988-2002** Cadeirydd neu Gyd-gadeirydd Gweithgor Asesiad Gwyddonol, IPCC
- 1990** Sefydlu Canolfan Hadley y Swyddfa Dywydd, prif ganolfan ymchwil newid hinsawdd y DU
- 1983-91** Cyfarwyddwr Cyffredinol (Prif Weithredwr yn ddiweddarach) Swyddfa Dywydd y DU
- 1976-83 Athro Ffiseg Atmosfferaid, Prifysgol Rhydychen

Ganwyd yn Nyserth, Clwyd. Addysgwyd yn Ysgol Ramadeg Y Rhyl a Choleg yr Iesu, Rhydychen.

“ Ni fydddech wedi gallu cael craffu mwy llym, roedd hi'n broses fanwl dros ben ”

Nid oedd gennym rag-ganfyddiadau o'r hyn yr oeddem am ddweud, ac eithrio i gredu yn y wyddoniaeth sylfaenol. Buom yn dadlau'n frwd ac yn hir ynglŷn â beth yr oeddem yn sicr yn ei gylch. Ond roeddent bob amser yn ddadleuon cwbl wyddonol, ac nid yn wleidyddol na phersonol o gwbl.

Roedd rhai gwledydd megis Saudi Arabia a Coweit yn benderfynol o wanhau'r adroddiadau ar unrhyw gost, yn chwilio am unrhyw beth gallai godi amheuan. Felly cawsom ddadleuon da, ond cymeradwyon ni'r testun drwy broses lem iawn. Ni allech fod wedi cael craffu mwy llym ar y deunydd na'r broses honno, roedd hi'n broses fanwl dros ben.

GJ: Pam fod cymaint o awydd i wadu newid hinsawdd? Ychydig iawn o amheuwyr hinsawdd a gwadwyr sydd â chymwysterau da mewn gwyddoniaeth hinsawdd, eto cânt lawer iawn o sylw gan y cyfryngau.

SJH: Dyna beth mae pobl eisiau ei glywed, oherwydd mae ganddynt yr argraff y bydd yn rhaid iddynt newid eu ffordd o fyw yn aruthrol er mwyn ymdopi â newid hinsawdd. Ond nid yw hynny'n wir. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw cael ynni di-garbon cyn gynted ag y gallwn. Mae hynny'n bosibl.

Bob blwyddyn bydd yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol (IEA) yn cyhoeddi beibl. Yn dechnegol mae'r IEA yn gorff cymwys iawn. Yn 2008 cyhoeddodd adroddiad yn dweud mewn manylder mawr yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau carbon gan o leiaf 50 y cant erbyn 2050. Efallai na fydd yn ddigon i gadw codiadau yn y tymheredd o fewn 2 radd, ond mae'n sicr ar y llwybr cywir. Mae'n esbonio beth sydd angen ei wneud gydag adnoddau adnewyddadwy, gyda thrafnidiaeth, gyda phopeth.

Mae bod yn fwy cynaliadwy yn fater arall, ond o ran brwydro yn erbyn newid hinsawdd, ni fydd yn golygu newidiadau enfawr mewn ffordd o fyw, gellir gwneud llawer o bethau na fydd yn effeithio ar ein safonau byw sylfaenol o gwbl. Y peth sy'n rhaid i ni ganolbwyntio arno yw cael ynni di-garbon ac atal dadfforestiad, sy'n rhan fawr o'r broblem.

GJ: Felly rydych chi'n obeithiol y gallwn fynd i'r afael â'r problemau yn ddigon buan i osgoi agweddau gwaethaf newid hinsawdd?

SJH: Wela'i ddim rheswm o gwbl pam na allwn. Er, yn y wlad hon mae'n dibynnu'n fawr ar agwedd y Llywodraeth.

Rwy'n disgwyl yn eiddgar i'r holl dechnolegau ynni newydd hyn gyrraedd. Gallwn ni ei wneud, mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen â'r gwaith. Bydd yn helpu i ddatrys yr argyfwng ariannol, a gallwn wneud lles mawr i'n hunain yn y broses, heb son am newid hinsawdd. Bydd gennym lai o lygredd, gwell iechyd, a mwy o ddiogelwch ynni. Felly bydd y byd yn well lle ●

Y Gwyddonydd Hinsawdd Syr John Houghton mewn sgwrs gyda Chyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, Gordon James

Yn y Cynulliad

Rhagor o newid. Nid yw pethau'n aros yr un fath yn hir iawn mewn gwleidyddiaeth. Ond a ydym yn symud yn y cyfeiriad cywir? Dyna yw cwestiwn **Haf Elgar**

Ynewid diweddar mwyaf yng ngwleidyddiaeth Cymru yw ymddeoliad Rhodri Morgan wedi bron i 10 mlynedd yn Brif Weinidog Cymru. Nid oedd bob amser yn cytuno'n llwyr gyda'n hymgyrchoedd, ond fe leisiodd farn am faterion yr oedd yn credu ynddynt, megis Cymru ddi-niwclear.

Camodd ei olynydd, Carwyn Jones, i'w esgidiau drwy ymweld ag Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd Copenhagen ym mis Rhagfyr 2009, yn ei ddyddiau cyntaf yn y swydd. Gwnaeth hyn wedi pwysau o du aelodau Cyfeillion y Ddaear ac Atal



Plant ysgol gydag ymgyrchydd hinsawdd mwyaf Cymru – Dai y Ddraig

Anrhefn Hinsawdd Cymru (SCCC) yn ystod yr ymgyrch arweinyddol.

Bu Cyfeillion y Ddaear Cymru hefyd yn gweithio gydag SCCC i fynd ag ymgyrhydd hinsawdd glasaf Cymru, Dai y Ddraig ugain troedfedd o hyd, i risiau'r Senedd. Denodd Dai lawer o sylw, a daeth nifer o Aelodau Cynulliad allan i gefnogi ein prif alwadau ar gyfer uwchgynhadledd Copenhagen.

Mae Cymru'n parhau i fod ar y blaen i Lywodraeth y DU yn ei hymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan gynnwys ymrwymiad i dorri allyriadau carbon gan 40 y cant erbyn 2020.

Ym mhwyllgorau'r Cynulliad mae materion perthnasol wedi mynd y tu hwnt i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd arferol, gydag ymchwiliadau Pwyllgor Menter ar seilwaith rheilffyrdd a swyddi gwyrdd, mesur yn y Pwyllgor Deddfwriaeth ar gludo gwastraff a Phwyllgor Gweithdrefnau Arbennig y Cynulliad yn gwrthwynebu deuoil'r A40 yn Sir Benfro.

Wrth i Aelodau Cynulliad allweddol, megis Jane Davidson a Mick Bates, gyhoeddi eu bod yn rhoi'r gorau iddi fis Mai nesaf, mae'n ymddangos bod ymdrech fawr wedi bod i roi pethau ar waith a gadael etifeddiaeth gref o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Mae hefyd yn gyfnod o newid ar gyfer perthnasau dros y ffyn, gyda llywodraeth newydd San Steffan yn ystyried ei pherthynas



Ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru, Haf Elgar

gyda'r llywodraeth ddatganoledig, refferendwm arfaethedig i gynyddu pwerau'r Cynulliad, a Chomisiwn Cynllunio Isadeiledd y DU yn gwneud penderfyniadau ar orsafoedd pŵer, ffermydd gwynt a llosgyddion yng Nghymru. Mae'n bosib bydd hyn yn arwain at lawer o wrthdaro.

Bydd y flwyddyn nesaf yn un dyngedfennol wrth i ni weithio i gael ymrwymadau gan yr holl bleidiau ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad. Rhaid i ddyfodol carbon isel ar gyfer Cymru fod yn brif ffocws y manifestos ●

Ydyn, mae nhw'n gwrandio Polisiau'r Cynulliad a enillwyd wedi ein hymgyrchoedd...

Hinsawdd

Cefnogaeth unfrydol gan Gynulliad Cymru i dorri allyriadau carbon gan 40 y cant erbyn 2020.

Ynni

Polisi ynni uchelgeisiol fis Mawrth 2010 yn datgan bod gan Gymru'r potensial ynni adnewyddol i gynhyrchu dwywaith gymaint o drydan ag yr ydym yn ei ddefnyddio erbyn 2025.

Bwyd

Cryfhawyd ymrwymiad di-GM Cymru gyda chyflwyno rheolaethau llym ar gyd-fodolaeth rhwng cnydau GM a rhai nad ydynt yn GM.

Trafnidiaeth

Rhoddyd y gorau i'r cynlluniau ar gyfer traffordd chwe lôn ar draws ardal gwarchoddedig Lefelau Gwent yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ym mis Mawrth 2010.

Gwastraff

Targed ailgylchu 70 y cant yn cael ei gadarnhau yn yr ymgyngoriad ar y strategaeth gwastraff ym mis Gorffennaf 2009. Cyhoeddi tâl am fagiau nwyddau wedi ymgyrchoedd trefi dim bagiau plastig gan grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear.

glas + melyn = gwyrdd?

Mae clymblaid newydd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan wedi canfod tir cyffredin gwyrdd sylweddol, a allai ddatblygu economi carbon isel yn y DU. Roedd y cyhoeddiad cynnar i beidio adeiladu trydydd rhedfa yn Heathrow yn ddechrau cadarnhaol, ac yn arwydd o boeni o ddifri am allyriadau hedfan.

Cytunodd Chris Huhne, yr Ysgrifennydd Ynni a Newid Hinsawdd, i'n haddewidion hinsawdd yn yr ymgyrch etholiadol, a bu'n hyrwyddo polisiau gwyrdd.

Roedd diffyg manylion yn araith y Frenhines, ond byddwn yn ymgyrchu am Fesur Ynni cryf – yn

cynnwys tariffau cyflenwi trydan mwy uchelgeisiol, cyfyngiadau ar allyriadau o orsafoedd pŵer newydd a sefydlu banc buddsoddi gwyrdd yn fuan. Dylai'r llywodraeth hefyd bwysu am gytundeb hinsawdd rhyngwladol cryf a theg, a tharged toriadau allyriadau yn y DU o leiaf 42 y cant erbyn 2020.

Bydd ymrwymiad i beidio â darparu unrhyw arian cyhoeddus i bŵer niwclear yn ei gwneud hi'n hynod o anodd i adeiladu unrhyw adweithyddion newydd.

Gyda llywodraeth newydd, a'r nifer uchaf erioed o Aelodau Seneddol newydd, mae gan Gyfeillion y Ddaear ddigon o waith i'w wneud.

Mynd ati o ddifrif



Mae llywodraethau'r DU a Chymru wedi ymrwymo i doriadau allyriadau carbon ar draws y wlad. Ond maent yn annhebygol o ddigwydd heb gefnogaeth ac ymglymiad eich cyngorau lleol.

Mae gweithredu ar newid hinsawdd yn eich ardal leol yn golygu mwy na dim ond ailgylchu yn y cartref, tyfu rhagor o lysiau neu ddefnyddio bylbiau golau ynni isel. Mae llawer o benderfyniadau a wneir gan ein cyngorau lleol - sut y teithiwn, sut y byddwn yn pweru ein cartrefi ac yn cynllunio ein cymunedau - sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr i'n hól troed carbon.

Neges ymgyrch 'O Ddifrif Ynghylch CO₂' Cyfeillion y Ddaear yw y gall pawb ohonom gyfranogi mewn helpu'r amgylchedd yn ein hardal leol, ac ar yr un pryd leihau allyriadau carbon.

Mae gan gyngorau lleol rôl ganolog i'w chwarae. Gallant wneud y penderfyniadau cywir ar drafnidiaeth, ynni, cynllunio a lleihau gwastraff. Yr un mor bwysig, gallant ddangos yr arweinyddiaeth sydd ei hangen i harneisio a meithrin y brwdfrydedd a'r arbenigedd mawr sydd yn ein cymunedau a'u troi yn bolisiau a chamau gweithredu real.

Wedi'r cyfan nid yw torri carbon yn golygu gwell amgylchedd yn unig - mae'n hatebion hefyd yn creu swyddi lleol, arbed arian, gwella trafnidiaeth gyhoeddus a thaclo tlodi tanwydd.

Mae peth gwaith ysbrydoledig eisoes yn digwydd (gweler 'Cyngorau

yn gwneud y peth iawn'), ond nid oes unrhyw un cyngor yn gwneud popeth posibl, nac yn datblygu cynllun cynhwysfawr a all leihau allyriadau a mynd i'r afael â newid hinsawdd.

Ar y cyfan, rydym yn llusgo y tu ôl i Loegr a gwledydd eraill. Dyna pam y mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru yn ymgyrchu i gael ymrwymiad gan gyngorau lleol i dorri allyriadau yn eu hardaloedd gan 40 y cant erbyn 2020, a chynhyrchu cynlluniau gweithredu neu strategaeth i ddangos sut y gellir cyflawni hyn. Bydd hyn yn rhoi ffocws ar gyfer gwaith yn y dyfodol, yn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflawni, sut y caiff y gymuned ei chynnwys ac i sicrhau bod yr adnoddau ar gael.

Mae angen i hyn ddigwydd os ydym i gyflawni'r toriadau mewn allyriadau y mae'r Cynulliad a Deddf Newid Hinsawdd y DU wedi ymrwymo iddynt. Felly, rydym yn galw am ofyniad torri allyriadau ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru.

Mae ein grwpiau lleol yn gweithio ar ymgyrchoedd ledled Cymru sy'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac yn gwella eu cymunedau, felly cymerwch ran yn eich grŵp lleol ar gyfer gwell dyfodol - ni fu gwell amser i feddwl y fyd-eang a gweithredu'n lleol ●

Cyngorau yn gwneud y peth iawn

Mae rhai pethau da yn digwydd yn ein hawdurdodau lleol. A allwn ni gael rhagor fel y rhain os gwelwch yn dda?

Blaenau Gwent

Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda chwmnïau preifat i ddatblygu 'Y Gweithfeydd' yng Nglynebwy, gyda busnesau, tai, ysbyty a choleg ar safle'r hen weithfeydd dur. Mae'r prosiect yn anelu i fod yn 'batrwm' ar gyfer ynni adnewyddadwy a thai eco, ac i fod yn garbon niwtral.

Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnal cynllun 'Caerdydd Carbon Ysgafn', sydd â'r nod o gyflawni toriadau carbon gan 60 y cant yn ei wasanaethau mewnol erbyn 2018. Mae prosiectau yn cynnwys beiciau canol y ddinas a chynlluniau rhannu siwrneiau, casgliadau bwyd gwastraff, rhaglen insiwleiddio a mesuryddion trydan smart.

Caerfyrddin

Nod Asiantaeth Ynni Sir Gaerfyrddin, a sefydlwyd yn 2004, yw datblygu prosiectau ynni cynaliadwy i wrthsefyll newid hinsawdd a rhoi hwb i ddatblygiad economaidd lleol. Ynghyd â menter Cwm Gwendraeth, mae ganddynt brosiect 'Cymunedau Dim Carbon' i ddatblygu ynni lleol.

Powys

Mae Cyngor Powys yn datblygu Rhaglen Rheoli Carbon i gyflenwi prosiectau a fydd yn arwain at leihad gan 50 y cant mewn carbon erbyn 2017.

Sir Ddinbych

Sefydlodd Cyngor Sir Ddinbych strategaeth 'Prosiect Gaia' i leihau allyriadau carbon y Cyngor gan o leiaf 3 y cant y flwyddyn. Mae 'Tim Gwyrd' o blith y staff yn gyfrifol am ddarganfod ffyrdd o fod yn wyrddach a meddwl am syniadau newydd.

Newid Hinsawdd: Ateb y mythau

‘Mae’r byd yn oeri nid yn twymo’

Mae cyfartaledd tymheredd byd-eang wedi codi tua 0.74°C dros y ganrif ddiwethaf. Mae deg o’r blynnyddoedd twymaf a gofnodwyd wedi digwydd ers 1997, 2000-09 fu’r degawd cynhesaf

‘Nid oes unrhyw gonsensws ar newid hinsawdd’

Derbynnir y dystiolaeth bod gweithgareddau dynol yn achosi newid hinsawdd gan wyddonwyr blaenaf y byd yn yr Academïau Gwyddonol, bron pob un o lywodraethau’r byd, ac arbenigwyr ieched, milwrol ac economaidd

‘Mae newid hinsawdd yn broses naturiol’

Mae’r codiadau tymheredd dros y ganrif ddiwethaf yn fwy nag a ellir rhoi cyfrif amdanynt gan ddylanwadau naturiol yn unig

‘Mae negeseuon e-bost a ddatgelir yn answyddogol yn dangos na ellir ymddiried mewn gwyddonwyr’

Cliriwyd gwyddonwyr hinsawdd Prifysgol East Anglia o unrhyw anonestrwydd gwyddonol gan ddau ymchwiliad arbenigol

Ewch i www.cyddcymru.co.uk i lawrlwytho fersiwn llawn

‘Newid Hinsawdd: Ateb y Mythau’



**Cyfeillion y Ddaear Cymru
Friends of the Earth Cymru**